

DAN EMBARGO TAN 18 HYDREF 2021, 00:01

Caffi a lleoliad priodasau newydd yn cyllido gwasanaethau cymunedol yn y Barri

Ar ôl bod yn achubiaeth i'r gymuned yn y Barri yn ystod y pandemig, mae'r mudiad cymorth i deuluoedd nid-er-elw, CUBE (Cymuned yn Un y Barri i Bawb) yn agor y drysau nawr i 'The Gallery', caffi cymunedol a gofod i ddigwyddiadau ar Broad Street yn y Barri.

Cafodd CUBE ei ffurfio wrth i'r cyfnod clo cyntaf daro Cymru yn 2020 ac er nad yw erioed wedi cael canolfan i weithredu ynddi, mae wedi bod yn cynnig gwasanaethau hanfodol i'r gymuned drwy gydol argyfwng y coronafeirws.

Bydd y lleoliad newydd yn cynhyrchu incwm ar gyfer nodau elusennol CUBE, gan eu galluogi i barhau i wneud gwahaniaeth i deuluoedd ac unigolion sy'n byw gydag iechyd meddwl, hunanladdiad, galar a cholled, cam-drin domestig a sylweddau neu'n cael eu heffeithio gan y pethau hyn.

Bydd 'The Gallery' yn cynnig lleoliad modern i ddigwyddiadau a phriodasau, a chaffi ar wahân sy'n ceisio cynnig gofod cymunedol i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd, problem sydd wedi gwaethygu yn ystod COVID-19. Gall cwsmeriaid alw heibio am sgwrs a choffi, neu dalu am 'goffi hwyr' i rywun mewn angen.

Bydd y lleoliad ar Broad Street yn y Barri hefyd yn gartref ac yn weithle i CUBE, a fydd yn eu caniatáu i allu darparu eu gwasanaethau'n well ar gyfer y gymuned.

Daw hyn ar ôl i CUBE herio'r ods a dal ati i weithredu pan oedd cyfyngiadau'r Coronafeirws ar waith, gan helpu i gynnig gwasanaethau mawr eu hangen i bobl leol. Roedd Janet* yn ei chael hi'n anodd ymdopi ag ymddygiad ei

phlentyn yn ystod y cyfnod clo, gyda'r plentyn yn sgreichain arni ac yn ei bwrw, gan ddweud wrthi ei bod yn ei chasáu.

Dywedodd Janet 'Rwyf mor ddiolchgar am y cymorth a gefais i gan CUBE. Mae fy mhentyn wedi cael cymorth rhagorol, ond yn fwy na hynny, mae fy nghartref yn llawer mwy hapus a thawel.'

Bydd lansiad 'The Gallery', sy'n cael ei gynnal ddydd Llun 18 Hydref 2021, rhwng 2 a 4pm, yn cynnwys prif gyflwyniadau gan y Gwir Anrh. Alun Cairns AS Bro Morgannwg, Prif Weithredwr CUBE, Tammi Owen a chefnogwyr, cyllidwyr a gwesteion.

*Enw wedi'i newid i ddiogelu'r unigolyn

Nodiadau i'r golygyddion

- Am gyfweiliadau a lluniau, cysylltwch â Simon Dowling – sdowling@wcva.cymru 02920 436596 neu Tammi Owen ar 07801 978676
- Mae CUBE (Cymuned yn Un y Barri i Bawb) yn gynulliad o 28 o bobl, sy'n bennaf yn drigolion o'r Barri. Mae CUBE yn unigryw: mae gan ei holl wasanaethau, gweithgareddau, staff a gwirfoddolwyr brofiad o naill ai cludo gwasanaethau i gymuned y Barri a/neu brofiad byw o gael cymorth lleol. CUBE yw eich cymuned chi yn gweithio gyda'i gilydd i helpu a chefnogi'r Barri
- Gwnaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ddyfarnu £500,000 dros dair blynedd i sefydlu a rhedeg CUBE
- Mae'r prosiect hefyd wedi'i gefnogi gan y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol, a gyllidir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru). I gael rhagor o wybodaeth ewch i <https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/cronfa-tyfu-busnesau-cymdeithasol/>

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydyn ni'n bodoli er mwyn galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd

Er mwyn i ni allu hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru a diweddaru ein cysylltiadau yn y wasg ar newyddion perthnasol gan CGGC, mae eich gwybodaeth wedi'i chofnodi ar ein cronfa dda. Darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd, sydd ar gael ar wefan CGGC, i gael rhagor o wybodaeth am sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, pwy sy'n gallu cael gafael ynddi, y sail gyfreithiol dros gadw eich gwybodaeth a'ch hawliau o ran yr wybodaeth hon.

Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa: Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dunballs,
Caerdydd CF10 5BF (Swyddfeydd hefyd yn Abergele ac Aberystwyth)
Ffôn: 0300 111 0124
E-bost: help@wcva.cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Elusen gofrestrdig 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru

